Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Llywodraeth Cymru

04 Hydref 2019

**Maes Awyr Caerdydd**

Annwyl Andrew,

Diolch unwaith eto ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 23 Medi 2019. Cododd nifer o faterion o'r cyfarfod y mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael rhagor o wybodaeth gennych chi amdanynt, fel y nodir isod.

Wrth edrych ar berfformiad ariannol y maes awyr, a allwch chi ddarparu manylion am gasgliadau adolygiad ariannol Deloitte o'r Maes Awyr a sut maent wedi dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru.

Yn fwy penodol, nododd diweddariad Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2017 fod y cyngor a ddarparwyd gan Deloitte yn cael ei adlewyrchu yn nhelerau'r benthyciad y cytunwyd arno gyda'r Maes Awyr. A allwch chi rannu manylion gyda ni ynghylch a yw telerau'r cyllid benthyciad estynedig o £15 miliwn y cytunwyd arnynt ym mis Mawrth 2017 yn wahanol i'r benthyciad gwreiddiol ac os felly sut.

Yn olaf, gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2016 fod perfformiad y Maes Awyr o ran cynyddu nifer y teithwyr tua dwy flynedd y tu ôl i'r cynllun busnes caffael. Beth yw'r asesiad o'r sefyllfa bresennol?

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565